YR EGLWYS YNG NGHYMRU | THE CHURCH IN WALES

CORFF CYNRYCHIOLWYR YR EGLWYS YNG NGHYMRU
THE REPRESENTATIVE BODY OF THE CHURCH IN WALES

# RHEOLI MYNWENTYDD

# POLISI A CHANLLAWIAU

Mae'r ddogfen hon yn egluro polisi Corff y Cynrychiolwyr ar Fynwentydd a chyfarwyddyd a chymorth i Gynghorau Plwyf Eglwysig[1] ar reoli mynwentydd.

Nid oes modd i ddogfen o'r fath gwmpasu pob sefyllfa ledled Cymru, ond gobeithio y bydd yn helpu i annog dull effeithiol o reoli mynwentydd.

Mae'r adran gyntaf, *Polisi Mynwentydd,* yn trafod perchnogaeth, rheoliadau a chyfrifoldebau mewn perthynas â mynwentydd Cymru. Mae'r ail adran, *Cyfarwyddyd ar Ofalu am Fynwentydd yn Gyfrifol,* yn edrych ar reoli a gweinyddu mynwentydd gan gynnwys awgrymiadau am arfer da. Bwriad y drydedd adran, *Nodyn Cyfarwyddyd ar Goed mewn Mynwentydd,* yw cynnig cyfarwyddyd ar reoli a gofalu am goed mewn Mynwentydd. Mae adran derfynol ar *Adnoddau* ar ddiwedd y ddogfen yn cynnwys gwybodaeth am adnoddau defnyddiol ar y we.

[1] Defnyddir y term "Cyngor Plwyf Eglwysig" o fewn y ddogfen hon i ddisgrifio corff ymddiriedolwyr yr eglwys leol sy'n gyfrifol am reoli'r eglwys, y neuadd a'r fynwent. Gellir adnabod y cyrff hyn hefyd fel Cyngor yr Ardal Weinidogaeth, Cyngor yr Ardal Weinidogaeth Leol, Cyngor Bywoliaeth Reithorol, Cynhadledd Ardal Genhadaeth, neu unrhyw derm arall a ddynodir gan bolisïau'r esgobaeth.

# POLISI MYNWENTYDD

## Diffiniad

Mae mynwent yn cyfeirio at y tir o amgylch man addoli. Yn aml, mae mynwent yn gladdfa hefyd. Yn ogystal, gall claddfa fod mewn lleoliad arall heb fod wrth ymyl yr eglwys mae'n ei gwasanaethu (claddfa ar wahân). Mae'r ddogfen hon yn defnyddio'r term "mynwent" i gyfeirio at unrhyw un o'r tiroedd hyn.

## Cefndir

Mae gan yr Eglwys yng Nghymru bron i 1226 o fynwentydd, gyda 1054 ohonynt yn gladdfeydd[2], sy'n amrywio'n fawr o ran maint a chymeriad. Eiddo Corff y Cynrychiolwyr yw'r claddfeydd a nhw sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol amdanynt, er eu bod yn cael eu rheoli gan blwyfi yn unol â threfniadau sydd i'w gweld mewn gwahanol rannau o Gyfansoddiad yr Eglwys yng Nghymru.

Yn ogystal â chyfrifoldebau sy'n deillio o reoliadau'r Eglwys ei hun (yn enwedig Hawleb), mae angen i blwyfi fod yn ymwybodol hefyd:

- bod beddau, henebion a cherrig beddau'n eiddo i deuluoedd yr ymadawedig a bydd angen cysylltu â nhw ynghylch unrhyw waith y bwriedir ei wneud iddynt;

- bod rhai cofebau, pyrth mynwentydd a muriau terfyn yn rhestredig ac yn dod o dan awdurdodaeth heneb yn awr yn dilyn *Gorchymyn Esemptiad Eglwysig (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Cymru) 2018*. Mae hyn yn golygu nad oes angen cydsyniad adeilad rhestredig ar wahân gan yr awdurdod cynllunio lleol arnynt mwyach, er y gallent fod angen cydsyniad cynllunio o hyd, yn dibynnu ar natur y gwaith. Os oes angen cyngor arnoch, holwch Ysgrifennydd Pwyllgor Ymgynghorol yr Esgobaeth neu'ch Awdurdod Cynllunio Lleol yn uniongyrchol;

- bod gwaith angen cydsyniad heneb gofrestredig gan Cadw ar unrhyw henebion cofrestredig (e.e. croesau pregethu a cherrig arysgrifedig);

- y gallai fod coed mewn ardaloedd cadwraeth neu y gallent fod yn destun Gorchmynion Cadw Coed, sy'n golygu bod angen cydsyniad gan awdurdodau lleol cyn gwneud unrhyw waith arnynt.

Pan mae Eglwys yn cael ei datgan yn ddiangen, mae'r Cyfansoddiad yn gwneud darpariaeth ar gyfer y Fynwent; boed ar agor neu ar gau i gladdedigaethau, fel ei bod yn parhau i gael ei rheoli gan y Cyngor Plwyf Eglwysig oni bai bod trefniadau eraill yn cael eu gwneud. Er enghraifft, gall Corff y Cynrychiolwyr ddod i gytundeb â lesddeiliad neu brynwr eglwys ddiangen i ysgwyddo cyfrifoldeb am y fynwent drwy drwydded neu, mewn achosion prin, drwy drosglwyddo teitl.

## Polisi

Polisi Corff y Cynrychiolwyr yw:

---

[2] Gwybodaeth o gronfa ddata InfoNet yr Eglwys yng Nghymru (29 Awst 2018)

- sicrhau bod gan blwyfi ganllawiau da a digonol ar safonau cynnal a chadw a rheoli mynwentydd rhesymol, a bod proses fonitro ar waith i sicrhau bod mynwentydd yn cael eu rheoli'n unol â'r canllawiau hynny;

- cynghori ar arferion rheoli risg i gyfyngu ar beryglon posibl a'r posibilrwydd dilynol o hawliadau yswiriant atebolrwydd cyhoeddus yn codi mewn mynwentydd;

- cynnig cymorth ariannol, cyn belled â bod cyllid ar gael, ar gyfer cynnal a chadw muriau terfyn mynwentydd;

- ceisio sicrhau lefelau ffioedd gwell a chyfraniadau eraill i'w hychwanegu at gyfrifon mynwentydd plwyfi i adlewyrchu cost cynnal a chadw mynwent;

- annog plwyfi i beidio ag ysgwyddo cyfrifoldeb am gladdfeydd newydd neu estynedig (yr awdurdod claddfeydd lleol h.y. y Cyngor Cymuned, Cyngor Tref neu'r Awdurdod Lleol ddylai fod yn gyfrifol amdanynt) oni bai fod Corff y Cynrychiolwyr (y byddai claddfeydd o'r fath yn cael eu breinio iddo) yn fodlon bod cymorth ariannol digonol wedi'i ddarparu ar gyfer caffael a chynnal y claddfeydd neu'r estyniadau arfaethedig;

- gwrthwynebu'r defnydd o fynwentydd lle nad oes claddfeydd yn bodoli ar hyn o bryd;

- annog dull rheoli mynwentydd sy'n 'ystyriol o fywyd gwyllt', yn parchu ac yn gofalu am blanhigion ac anifeiliaid naturiol heb gyfaddawdu gofynion rheoli risg atebolrwydd cyhoeddus;

- cefnogi datblygiad dylunio dychmygus ac amrywiaeth mewn cerrig beddau a chofebau eraill (o fewn y cyfyngiadau a bennir gan y Cyfansoddiad).

# CYFARWYDDYD AR OFALU AM FYNWENTYDD YN GYFRIFOL

## Cyflwyniad

Mae'r canllaw hwn yn cynnig cyfarwyddyd i helpu Cynghorau Plwyf Eglwysig i reoli mynwentydd. Mae rhai achosion proffil uchel o ddigwyddiadau mewn mynwentydd wedi amlygu pryderon am atebolrwydd posibl ac mae'r canllaw hwn yn ceisio darparu cyngor ar safonau rhesymol i helpu i gyflawni'r ddyletswydd gofal sy'n ofynnol gan yswirwyr a statud. Mae gan yr Eglwys yswiriant sylweddol i ddarparu amddiffyniad i Gorff y Cynrychiolwyr, y Cynghorau Plwyf Eglwysig a phlwyfolion (ond ni fydd unrhyw yswiriant yn cwmpasu ymddygiad diofal neu dwyllodrus).

## Gweithdrefn Hawlebau

Mae gweithdrefnau ar gyfer cyflawni newidiadau neu ddatblygiadau'r un mor berthnasol mewn mynwentydd ag mewn eglwysi. Mae hyn yn golygu bod angen caniatâd ar ffurf Hawlebau i gynnal y rhan fwyaf o fathau o waith ac eithrio gwaith cynnal a chadw arferol, mân waith trwsio tebyg-am-debyg a gwaith sy'n cael fawr ddim effaith, os o gwbl, ar ffabrig hanesyddol yr eglwys, y fynwent ac unrhyw strwythurau cwrtil. Dylid nodi bod y rheol hon yn berthnasol hyd yn oed os yw'r eglwys ei hun yn ddiangen neu wedi'i gwerthu neu pan nad oes eglwys yn bodoli.

Mae'r Cyfansoddiad yn cynnwys darpariaethau manwl i Gynghorau Plwyf Eglwysig sy'n dymuno gwneud newidiadau sylweddol i fynwentydd. Fodd bynnag, gall yr Archddiacon gymeradwyo gwaith brys i wneud mynwentydd yn ddiogel ymlaen llaw. Gall Corff y Cynrychiolwyr neu Gofrestrydd yr Esgobaeth gynghori ar unrhyw weithdrefnau angenrheidiol ar gyfer cydsyniad hawleb ôl-weithredol. Mae codi cerrig beddau 'safonol' (fel y nodir yn y Cyfansoddiad) wedi'u heithrio o gydsyniad hawleb ond nid oes angen iddynt gael cydsyniad gan Beriglor neu Archddiacon. Bydd angen cydsyniad hawleb ar bob math arall o gofeb.

Rhestrir mathau o waith mewn mynwent *nad* oes angen Hawleb arnynt yn Atodiad C. Gelwir y rhain yn eitemau Rhestr A ac roeddynt yn arfer cael eu galw'n "fân faterion". Fe'u cyflwynwyd ym mis Ionawr 2018, ac eitemau Rhestr B, fel rhan o broses hawleb ddiwygiedig a symlach sy'n defnyddio system ar-lein.

Gellir ystyried ceisiadau Rhestr A a B fel math llai o Hawleb sy'n cwmpasu gwaith cynnal a chadw rheolaidd, gwaith trwsio tebyg-am-debyg a gwaith syml sy'n cael fawr ddim effaith, os o gwbl, ar ffabrig hanesyddol yr eglwys neu'r fynwent. Fodd bynnag, yn wahanol i eitemau Rhestr A, mae eitemau Rhestr B (Atodiad D) angen cymeradwyaeth gan Gofrestrydd yr Esgobaeth cyn gellir bwrw ymlaen â nhw.

Cymerir yn ganiataol y bydd angen hawleb lawn ar unrhyw waith mewn mynwent nad yw ar Restri A a B a. Nid yw'r weithdrefn ar gyfer hyn wedi newid, ond mae pob cais am hawleb yn cael ei gyflwyno ar-lein bellach. Cysylltwch ag Ysgrifennydd Pwyllgor Ymgynghorol yr Esgobaeth am gyngor. Mae cyfarwyddyd ar weithrediad y weithdrefn hawleb ar gael ar ffurf dogfen Cwestiynau Cyffredin, y gellir ei gweld a'i lawrlwytho o adran Cyfarwyddyd a Pholisi tudalennau gwe'r Adran Eiddo. Gallwch gael cyfarwyddyd ar Waith Mân a Brys yno hefyd. Gallwch gysylltu â'r adran eiddo'n uniongyrchol yn property@churchinwales.org.uk neu 029 2034 8200.

## Codi Cofebau

Mae'r Cyfansoddiad yn cynnwys y trefniadau manwl ar gyfer rhywun sydd am gael cydsyniad i godi cofeb. Mae'n bwysig sylweddoli nad yw codi cofeb yn hawl, a bod angen caniatâd gan yr Eglwys yng Nghymru. Mae'n rhaid i ymgeisydd wneud cais ffurfiol i'r periglor/offeiriad sy'n gyfrifol (neu Ddeon Ardal) ar y Ffurflen Ragnodedig (Ffurflen 1) sydd ar gael gan Gyhoeddiadau'r Eglwys yng Nghymru neu o adran Cyhoeddiadau gwefan yr Eglwys yng Nghymru yn: https://www.churchinwales.org.uk/cy/

Os na cheir caniatâd y periglor, gellir gofyn am ganiatâd yr Archddiacon. Os yw'r Archddiacon yn gwrthod, bydd angen gwneud cais am hawleb.

Weithiau, bydd plwyfi'n ceisio sefydlu arddull neu gynllun arbennig ar gyfer cofebau yn y fynwent. Mae'r Cyfansoddiad yn nodi'r dimensiynau uchaf a ganiateir a chanllawiau arddull ar gyfer cofebau ac felly mae gan Blwyf hawl i benderfynu ar bolisi lleol i bennu ffurf sy'n llai na'r rhai a nodir yn y rheoliadau. Dylai unrhyw bolisi o'r fath gael ei wneud trwy benderfyniad clir gan y Cyngor Plwyf Eglwysig ar ôl ymgynghori â'r gymuned ehangach. Fodd bynnag, dylid gwerthfawrogi y bydd ymgeiswyr yn cymryd bod y rheoliadau'n weithredol, felly dylid cyhoeddi unrhyw bolisi lleol yn glir a'i ddatgan yn glir pan fo pobl yn gwneud cais am gofeb.

## Gweddillion Amlosgi (Llwch)

Os yw Cyngor Plwyf Eglwysig yn dymuno neilltuo ardal ar gyfer claddu gweddillion amlosgi, mae'n rhaid cael hawleb ymlaen llaw i sefydlu'r ardal honno. Mae gofynion manwl ar gyfer ardaloedd o'r fath i'w gweld yn y Cyfansoddiad. Y dull a ffefrir ar gyfer ardal claddu llwch yw plotiau heb eu marcio gydag un gofeb ar gyfer ychwanegu enwau os oes angen. Mae'r dull hwn yn sicrhau ardal hawdd i'w rheoli heb yr anawsterau sy'n gysylltiedig â gosod teyrngedau personol ar blotiau bach.

Mae'n bosibl gwneud cais am hawleb ar gyfer ardal sydd â phlotiau wedi'u marcio ond nid yw hyn yn cael ei annog yn gyffredinol o ystyried anawsterau ymarferol ardaloedd o'r fath.

## Teyrngedau

Mae teyrngedau ar ffurf blodau yn ffordd draddodiadol i bobl anrhydeddu eu hanwyliaid ar ôl iddynt farw. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae pobl wedi bod yn addurno beddau'n gynyddol gyda mwy o amrywiaeth o eitemau (mae melinau gwynt, llusernau, blodau artiffisial a thedis yn gyffredin). Mae'r Cyfansoddiad yn mynegi'n glir nad oes hawl i roi'r eitemau hyn ar feddau, ond prin yw'r bobl fydd wedi darllen y ddarpariaeth hon. Mae gofyn i bobl symud eitemau sy'n rhoi cysur iddynt yn fater sensitif iawn hefyd.

Dylai plwyfi geisio gwneud y rheolau'n glir i deuluoedd er mwyn osgoi gwneud y lle'n anniben. Gallai camau gweithredu gynnwys arwyddion clir neu ganllaw syml a roddir i ymgeiswyr. Os caiff ei esbonio yng nghyd-destun rheoli'r fynwent gyfan mewn ffordd dda a gofalus, bydd pobl yn deall ar y cyfan. Mae canllaw enghreifftiol o'r rheolau sy'n berthnasol mewn mynwent yn ymwneud â chofebau a theyrngedau wedi'i gynnwys yn Atodiad A. Gellir ei addasu i fod yn berthnasol i bolisi penodol y plwyf.

Mewn rhai achosion, caniatawyd i ormod o deyrngedau grynhoi ac mae plwyfi'n cael trafferth cadw'r cyfan dan reolaeth. Yn naturiol, mae pobl yn gweld beth mae pobl eraill wedi'i wneud ac mae hyn yn creu cynsail a gall y sefyllfa droi'n un na ellir ei rheoli. Mae'n rhaid i'r Cyngor Plwyf Eglwysig gymryd penderfyniad i dacluso'r fynwent a phennu polisi 'teyrngedau blodau yn unig' a chofnodi hyn yn y cofnodion. Yna, dylid rhoi esboniad clir a chyhoeddus o'r polisi a chyfnod digonol i bobl symud eu heitemau. Dylid rhoi rhybudd ymlaen llaw yn glir am unrhyw fwriad i symud eitemau a dylai eitemau nad ydynt yn rhai darfodus gael eu cadw i'w

casglu am gyfnod rhesymol. Mater o farn fydd beth yw 'cyfnod rhesymol' ond yn gyffredinol ni ddylid rhuthro'r broses a dylid ei chwblhau gydag amynedd a dealltwriaeth ynghyd â phenderfyniad i weithredu'r polisi y cytunwyd arno.

Bydd plwyfi'n gyfarwydd â'r adegau nodweddiadol yn y flwyddyn pan fo pobl yn ymweld â beddau felly dylid hysbysebu unrhyw newid i bolisi yn ystod y cyfnodau hyn i sicrhau bod cymaint o ddefnyddwyr â phosibl yn dod i wybod am y newidiadau arfaethedig.

## Ffioedd

Mae'r Cyfansoddiad yn ei gwneud hi'n ofynnol i gyfeirio ffioedd am gladdu a chodi cofebau i Gronfa Gynnal Mynwent er mwyn cynnal a chadw'r fynwent. Mae'r ffioedd hyn yn cael eu pennu'n flynyddol gyda chytundeb Llywodraeth Cymru. Dywed y Cyfansoddiad bod rhaid i Gynghorau Plwyf Eglwysig gael Cronfeydd Cynnal Mynwentydd ar wahân ar gyfer pob mynwent yn y plwyf ac na ddylid eu defnyddio at unrhyw ddiben arall (maen nhw'n Gronfeydd Cyfyngedig).

## Cronfeydd a Grantiau

Dylai Cynghorau Plwyf Eglwysig ymgynghori â'u Cynghorau Cymuned a Sir i weld a ellir darparu unrhyw grantiau: y Cyngor Sir yw ymddiriedolwr Cronfa Deddf yr Eglwys yng Nghymru ym mhob ardal.

Mewn achosion eithriadol, efallai y bydd cyllid gan y Gronfa Cymorth Brys (a weinyddir gan Gorff y Cynrychiolwyr) yn bosibl, weithiau ar ffurf grant ac weithiau ar ffurf benthyciad lle nad yw'r meini prawf llawn yn cael eu bodloni. Gallwch gael rhagor o fanylion yn yr adran Gwasanaethau Eiddo.

## Sefyllfa Yswiriant

Y prif yswiriant sydd ar waith i amddiffyn Cynghorau Plwyf Eglwysig ac aelodau Cynghorau Plwyf Eglwysig yw'r Polisi Parishguard gan yr Ecclesiastical Insurance Group. Mae hwn yn darparu yswiriant amrywiol i'r eglwys a'i gweithgareddau, yn cynnwys atebolrwydd cyhoeddus ac atebolrwydd cyflogwyr ac mae manylion llawn yn nogfen y polisi.

Mae gan aelodau'r Cyngor Plwyf Eglwysig yswiriant atebolrwydd gwerth hyd at £10,000,000 (dyna oedd y sefyllfa yn 2015). Mae'r yswiriant yn darparu indemniad i'r periglor, wardeiniaid eglwys a gwirfoddolwyr neu weithwyr cyflogedig y Cyngor Plwyf Eglwysig hefyd. Mae'r yswiriant yn cynnwys yswiriant rhag atebolrwydd cyfreithiol am:

- farwolaeth neu anaf corfforol damweiniol i drydydd partïon (ac eithrio gweithwyr cyflogedig)

- colli eiddo trydydd parti'n ddamweiniol, neu achosi difrod iddo, nad yw ym meddiant neu o dan reolaeth y Cyngor Plwyf Eglwysig ac eithrio eiddo wedi'i logi neu ei rentu ac eiddo gweithwyr cyflogedig a gwirfoddolwyr awdurdodedig

Mae gan aelodau Cyngor Plwyf Eglwysig yswiriant atebolrwydd gwerth hyd at £10,000,000 (dyna oedd y sefyllfa yn 2015). Mae'r yswiriant yn darparu indemniad mewn perthynas ag atebolrwydd cyfreithiol am anaf corfforol neu farwolaeth, salwch neu glefyd gweithwyr cyflogedig (yn cynnwys gwirfoddolwyr awdurdodedig) yn gysylltiedig â'u dyletswyddau ar ran y Cyngor Plwyf Eglwysig.

Mae polisi Parishguard yn cynnwys yswiriant i helpu gydag anghydfodau â chontractwyr fel adeiladwyr a chynghorwyr proffesiynol hefyd. Rhowch wybod i Gorff y Cynrychiolwyr am unrhyw hawliadau posibl o'r fath cyn gynted â phosibl.

Mae neuaddau eglwys wedi'u hyswirio gan un o bolisïau eraill yr Ecclesiastical Insurance Group sef HallGuard.

# ARFERION DA

Mae'r adrannau canlynol yn trafod amrywiaeth o bynciau sy'n gysylltiedig â rheoli a gofalu am fynwentydd a chladdfeydd. Maen nhw'n cynnwys awgrymiadau ar gyfer arferion da a allai fod yn ddefnyddiol i Gynghorau Plwyf Eglwysig.

## 1. Rheoli a Gweinyddu

- Dylai'r Cyngor Plwyf Eglwysig gyflwyno system reolaidd ar gyfer arolygu a monitro'r Fynwent, ac yn enwedig cynnal archwiliad blynyddol o ddiogelwch cerrig beddau, beddau a chromgelloedd.

- Dylid enwebu aelodau Cyngor Plwyf Eglwysig a fydd yn cymryd diddordeb arbennig mewn gofalu am y fynwent.

- Cadwch ddyddiadur mynwent i gofnodi'r holl archwiliadau a chamau gweithredu a gynhelir mewn mynwent, yn cynnwys gwaith cynnal a chadw rheolaidd.

- Dechreuwch "Lyfr Problemau" lle gall pobl gofnodi problemau; gadewch i'ch plwyfolion helpu i gadw llygad ar bethau.

- Datblygwch Bolisi Rheoli Mynwent sy'n nodi:

    - Pwy sy'n gwneud beth
    - Y drefn gynnal a chadw
    - Y polisi torri gwair
    - Crynodeb cadwraeth bywyd gwyllt, yn nodi unrhyw ddiddordeb bywyd gwyllt (e.e. cynefinoedd a rhywogaethau allweddol) ac unrhyw gamau sy'n cael eu cymryd i ofalu am y bywyd gwyllt hwn
    - Y trefniadau ar gyfer archwilio ac arolygu
    - Cysylltiadau allweddol
    - Adrodd am namau a phroblemau

  Mae dogfen bolisi enghreifftiol i'w gweld yn Atodiad B.

- Dylech sicrhau bod yr uchod wedi'i gytuno gan y Cyngor Plwyf Eglwysig llawn, wedi'i gofnodi yn y Cofnodion a'i arddangos mewn man yn amlwg i ddangos bod rhywun yn gofalu am y fynwent. Dyma fydd y cofnod ffurfiol eich bod yn rheoli'r fynwent yn gyfrifol.

- Datblygwch system i reoli iechyd a diogelwch yn seiliedig ar nodi peryglon posibl, y risg o niwed difrifol sydd ganddynt, a'r camau i'w cymryd i liniaru'r risgiau hyn (gelwir hyn yn Asesiad Risg). Gall yr Ecclesiastical Insurance Group roi canllawiau manwl ar reoli iechyd a diogelwch. Argymhellir y dylai pob Plwyf benodi Swyddog Iechyd a Diogelwch gwirfoddol i oruchwylio'r holl faterion iechyd a diogelwch.

- Os oes torrwr beddau'n cael ei gyflogi, sicrhewch fod ganddo gontract cyflogaeth ysgrifenedig. Gall Adran Adnoddau Dynol Corff y Cynrychiolwyr gynghori ar hyn.

## 2. Cynnal a Chadw Mynwentydd

- Gweithwyr gwirfoddol fydd yn cynnal a chadw mynwent yn aml. Dylid gweithredu'r ystyriaethau canlynol:

    - Archwilio a gwasanaethu peiriannau a chyfarpar cynnal a chadw'n rheolaidd
    - Darparu a gwisgo dillad diogelwch priodol e.e. esgidiau diogelwch, amddiffynwyr clustiau, gogls diogelwch, menyg ac ati
    - Cymryd gofal arbennig wrth glirio sbwriel; gwisgwch fenyg cryf. Cadwch lygad am wydr wedi torri a nodwyddau hypodermig wedi'u taflu
    - Dim ond os ydych chi wedi cael hyfforddiant i wneud hynny y dylech ddefnyddio peiriannau neu gyfarpar. Bydd rhaid bod dros oedran arbennig i ddefnyddio rhai mathau o gyfarpar
    - Dylai dau berson fod yn bresennol bob amser wrth wneud unrhyw waith
        - Mae defnyddio ysgolion yn gofyn am ystyriaeth ofalus. Ystyriwch logi tyrau mynediad arbenigol neu gontractio gwaith o'r fath i arbenigwyr. Dylech sicrhau bod ysgolion wedi'u gosod yn ddiogel bob amser. Mae gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ganllaw cam wrth gam ar gyfer gweithio ar uchder, y gellir ei lawrlwytho o'u prif wefan: www.hse.gov.uk. Dylech gynnal asesiad risg cyn defnyddio ysgolion bob amser.

- Os oes modd, mae'n werth chweil trefnu contractwyr allanol cyfrifol i wneud gwaith cynnal a chadw mewn mynwent. Dylai contractwyr o'r fath:

    - Feddu ar yswiriant atebolrwydd cyhoeddus
    - Bod yn gymwys a phrofiadol i gyflawni'r gwaith
    - Bodloni'r Cyngor Plwyf Eglwysig bod ganddynt bolisi iechyd a diogelwch priodol
    - Darparu eu peiriannau eu hunain

## 3. Torri Gwair

- Cadwch y gwair i uchder ble gellir gweld cyrbiau a beddau'n glir; mae llawer iawn o hawliadau anafiadau'n cael eu cyflwyno gan bobl sydd wedi baglu dros gerrig cudd.

- Os yw'n amhosibl torri gwair y fynwent gyfan yn isel, gwnewch yn siŵr bod llwybrau ac ardaloedd lle mae pobl yn cerdded arnynt yn aml yn cael eu torri fel blaenoriaeth.

- Pan benderfynir torri gwair ardal neu fynwent yn llai rheolaidd er budd bywyd gwyllt, dylid diffinio'r ardal mewn rhyw ffordd i helpu ymwelwyr i ddeall ei bod yn cael ei rheoli'n wahanol yn fwriadol ac y gallai gynnwys peryglon cudd. Rhai dulliau o wneud hyn fyddai torri'r ymylon, llwybrau wedi'u torri'n glir drwy'r ardal, arwyddion esboniadol ac ati.

- Pan benderfynir gadael ardal o fynwent i dyfu at ddibenion cadwraeth o dan gynllun cydnabyddedig wedi'i gynllunio, ystyriwch wahardd mynediad i'r ardal hon am y cyfnod hwn neu torrwch lwybrau clir drwy'r ardal i ymwelwyr eu dilyn.

## 4. Cerrig Beddau a Beddau

- Dros y blynyddoedd diwethaf rhoddwyd llawer o gyhoeddusrwydd i faterion diogelwch cofebau, yn enwedig dull rhy eiddgar yn aml o reoli'r risgiau sydd ganddynt. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi darparu cyngor ar gyfer ymdrin â chofebau ansefydlog sy'n ceisio dod o hyd i ffordd ymarferol a chall o ymdrin â'r mater hwn. Dylai Cynghorau Plwyf Eglwysig ddarllen y canllawiau defnyddiol hyn fel cam cyntaf. Mae'r canllawiau yn adran Cyhoeddiadau eu prif wefan: www.gov.uk.

- Mae'r canllawiau isod yn ceisio egluro mewn ffordd syml sut i reoli cerrig beddau a beddau mewn mynwentydd mewn ffordd briodol gan adlewyrchu cyngor y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

- Y man cychwyn yw bod cerrig beddau a beddau'n eiddo i'r teuluoedd a'u cododd. Nhw sy'n bennaf cyfrifol am ofalu amdanynt.

- Fodd bynnag, mae cofebau wedi'u lleoli ar dir eglwys ac mae gan yr eglwys ddyletswydd i reoli'r risgiau sydd ganddynt fel rhan o ddyletswydd y Cyngor Plwyf Eglwysig i gadw'r fynwent mewn trefn dda.

- Isod, nodir dull rheoli a argymhellir sy'n seiliedig ar risg ac ymateb cymesur. Fodd bynnag, efallai y bydd rhai Cynghorau Plwyf Eglwysig yn ystyried na fyddant yn gallu cyflawni'r trefniadau rheoli argymelledig hyn am ba reswm bynnag. Os felly, dylent drafod â'u Harchddiacon gyda golwg ar wneud trefniadau eraill ar gyfer rheoli o'r fath:

  (i) Archwilio'r holl gerrig beddau, beddau a chromgelloedd bob blwyddyn o leiaf (gall aelodau'r Cyngor Plwyf Eglwysig wneud hyn ac nid oes rhaid cael arbenigwr). Dylech ystyried a ddylid gwirio rhai ardaloedd o'r fynwent yn amlach os yw pobl yn cerdded arnynt yn fwy nag eraill; mae'r perygl o anaf yn fwy yn yr ardaloedd hynny gan fod mwy o bobl o gwmpas. Defnyddiwch eich gwybodaeth leol i ganolbwyntio ar y cofebau hynny sy'n fwyaf tebygol o fod â'r risg fwyaf.

  (ii) Dylid archwilio pob carreg fedd yn weledol am ddifrod neu arwyddion y gallai fod yn ansefydlog. Dylech edrych am:

    a) Bondin wedi difrodi neu erydu

    b) Rhannau o gofeb wedi symud o'u safle gwreiddiol

    c) Cyrbiau yn chwalu

    d) Sylfeini wedi'u tanseilio

    e) Cofebau ar ogwydd, yn enwedig symudiad diweddar. Dylid nodi y gall hen gofebau monolith ogwyddo ond bod yn sefydlog iawn o hyd, gan fod darn mawr o'r garreg o dan ddaear (fel mynydd rhew!)

    f) Craciau

g) Llystyfiant yn achosi i graciau ledu

(iii) Defnyddiwch eich llaw i weld a oes mowntin rhydd, mortar yn chwalu neu fod oedran neu rew wedi achos craciau. Cofnodwch yr hyn rydych yn ei weld ar gyfer pob carreg, efallai drwy raddio yn ôl y risg sydd iddynt.

(iv) Nodwch gerrig sy'n beryglus yn awr; dylid trwsio neu osod cerrig o'r fath yn fflat cyn gynted â phosibl gyda chaniatâd yr Archddiacon. Mae'n bosibl cynnal carreg fedd drwy osod polyn pren y tu ôl i'r garreg a chlymu'r garreg i'r polyn. Dylid bod yn ofalus wrth wneud hyn i sicrhau ei bod yn ddiogel. Rhoi carreg fedd i orwedd yn fflat yw'r dull mwyaf diogel.

(v) Yn achos cerrig sydd angen eu trwsio ond nad ydynt yn achosi risg yn syth, dylid cymryd camau rhesymol i gysylltu ag aelodau'r teulu i wneud y gwaith trwsio er mwyn gwneud y cerrig yn ddiogel o fewn amserlen sy'n briodol i lefel y risg dan sylw. Dylid cynghori'r teulu'n ysgrifenedig a'u hysbysu o'r camau a fydd yn cael eu cymryd os na fyddant yn cwblhau'r gwaith o fewn yr amserlen (dylai hyn fod yr isafswm o amser sydd ei angen i wneud y cerrig yn ddiogel a bydd yn golygu rhoi'r garreg i orwedd yn fflat fel arfer). Os na fydd y teulu'n cymryd unrhyw gamau, dylid anfon llythyr dilynol yn eu hysbysu bod gwaith i gael ei wneud.

(vi) Pan na ellir olrhain y teulu, dylid labelu'r garreg gyda'r gwaith arfaethedig. Argymhellir rhoi hysbyseb mewn papurau lleol i ddweud y bwriedir gwneud gwaith i'r garreg ac y dylai partïon â buddiant ymweld â'r fynwent i weld y cynigion.

(vii) Dylid marcio cerrig sydd angen eu trwsio'n glir gydag arwyddion priodol (defnyddiwch symbolau gan eu bod yn glir i bawb) a/thâp yn ddi-oed.

(viii) Dylid nodi/cofnodi cerrig sy'n peri pryder posibl yn glir i'w monitro'n rheolaidd a pharhaus.

(ix) Cadwch gofnod o pryd a phwy a fu'n archwilio ac unrhyw gamau gweithredu penodol a argymhellwyd neu a gymerwyd. Adroddwch hyn yng nghyfarfod nesaf y Cyngor Plwyf Eglwysig a'i gofnodi yn y Cofnodion.

- Dim ond seiri meini cofebau profiadol a phroffesiynol sy'n cael gweithio ym mynwentydd yr Eglwys yng Nghymru. Mae'r Cyfansoddiad yn ei gwneud yn ofynnol yn awr i unrhyw waith a wneir i gofebau gael ei wneud yn unol â Safon Brydeinig 8415. Y ffordd symlaf i sicrhau hyn yw gwirio bod unrhyw saer maen cofebau'n aelod o Gymdeithas Genedlaethol Seiri Meini Cofebau (ac felly'n gorfod cydymffurfio â'i God Ymarfer Gweithio sy'n bodloni'r Safon Brydeinig).

- Yn aml bydd seiri meini'n cofrestru gyda chynlluniau i gadarnhau eu cymhwysedd; y cynlluniau cyffredin yw BRAMM (Cofrestr Seiri Meini Cofebau Achrededig Prydain) neu RQMF (Cofrestr Gweithwyr Trwsio Cofebau Cymwysedig). Yn ddelfrydol, dim ond contractwyr ag un o'r cymwysterau hyn ddylid eu defnyddio gan fod hynny'n sicrhau safonau gwaith uchel iawn. Fodd bynnag, efallai na fydd hyn yn bosibl yn enwedig mewn ardaloedd mwy anghysbell.

- Mae'n ofyniad mewn Cyfraith Statud a Chyfraith Canon bod rhaid i bob Plwyf gadw cofrestr o gladdedigaethau.

- Ers 2011 mae'r Cyfansoddiad yn ei gwneud hi'n ofynnol i gofnodi lleoliad beddau newydd gan fod yna achosion ble nad oedd hi'n bosibl olrhain claddfeydd blaenorol gan nad oedd cerrig beddau wedi'u codi. Gellir cofnodi lleoliad beddau mewn sawl ffordd, er enghraifft:

  - nodi rhif y bedd gyda marciwr parhaol
  - mesur o gyfeirbwynt clir penodol
  - llunio cynllun cywir o'r fynwent
  - defnyddio dyfais GPS i blotio'r union gyfesurynnau

  Gellir cofnodi lleoliadau yn y gofrestr gladdu neu mewn llyfr ar wahân ochr yn ochr â'r gofrestr gladdu.

  Gall cael lleoliadau beddau presennol wedi'u cofnodi fod yn ddefnyddiol a gall grwpiau hanes lleol helpu gyda'r gwaith o arolygu a chofnodi beddau presennol.

## 5. Waliau a Strwythurau Eraill

- Sicrhewch fod eich pensaer neu syrfëwr pum mlynedd yn archwilio pob mur terfyn a strwythur arwyddocaol yn y fynwent e.e. cofebau mawr, fel y gellir nodi'r gwaith trwsio sydd angen ei wneud mewn da bryd.

- Os nodir bod unrhyw un o'r strwythurau yn anniogel, dylid cymryd camau i unioni hynny cyn gynted â phosibl gan godi ffens ddiogelwch briodol i gadw pobl draw o'r ardal hyd nes y gellir gwneud y gwaith trwsio.

- Weithiau, bydd waliau a strwythurau eraill wedi'u rhestru ar wahân a bydd angen cydsyniad adeilad rhestredig yn ogystal â chaniatâd hawleb ar gyfer y gwaith.

## 6. Cadwraeth Natur a Bywyd Gwyllt

- Mae mynwentydd yn hafan i gynefinoedd sy'n cynnal bywyd gwyllt a rhywogaethau a arferai fod yn fwy eang. Mae llawer o fynwentydd yn cynnwys coed yw hynafol (y pethau byw hynaf yn y DU mae'n debyg!) a glaswelltir sy'n llawn blodau gwyllt. Mae diddordeb naturiol arall yn cynnwys ffwng cap cwyr mewn glaswelltir, cennau ar gerrig, amffibiaid, ymlusgiaid, pryfed, adar a mamaliaid bach. Mae llawer o fynwentydd yn gartref i ystlumod hefyd. Mae'n bosibl gofalu am fynwent mewn ffordd sy'n ddeniadol i bobl leol, ymwelwyr a bywyd gwyllt.

- Mae annog bywyd gwyllt i'w gefnogi ar y cyfan ond dylech ofyn am gyngor arbenigol a pharatoi cynllun rheoli priodol gan nodi'r bywyd gwyllt sydd yn y fynwent, a threfniadau rheoli i ofalu amdano. Dylai gynnwys unrhyw fesurau i helpu ymwelwyr i fwynhau bywyd gwyllt y fynwent yn ddiogel megis arwyddion esboniadol, ffensys dros dro yn ystod rhai cyfnodau a thorri gwair i ffurfio llwybrau drwy ardaloedd bywyd gwyllt.

- Ardaloedd glaswelltir: Argymhellir gadael glaswelltir i dyfu, blodeuo a bwrw had cyn torri **ond dim ond**:

  - Pan fydd yna amrywiaeth o blanhigion gwyllt neu ardal i'w chadw am resymau bywyd gwyllt eraill (e.e. mamaliaid bach neu bryfed)
  - Nad oes unrhyw feddau y mae pobl yn ymweld â nhw
  - Pan fo gan bobl leol ddiddordeb mewn helpu i ofalu am yr ardal e.e. helpu i gribinio'r toriadau (gweler y pwynt bwled nesaf). Bydd rheoli glaswelltir ar gyfer bywyd gwyllt yn golygu cael gwared ar doriadau neu eu cribinio fel arfer.

- Ni fydd peidio â rheoli ardal yn arwain at amrywiaeth mewn bywyd gwyllt yn gyffredinol. Bydd natur, drwy broses o'r enw olyniaeth, yn dueddol o ganiatáu i ychydig o rywogaethau trechol ymledu, fel mieri, bedw ac ati ('prysgwydd'). Er y gall hyn gynnal rhai rhywogaethau eraill (a bod yn rhan werthfawr o drefniant bywyd gwyllt) bydd yn gyrru llawer o rywogaethau eraill oddi yno os cânt gyfle i ddatblygu.

- Rhywogaethau Gwarchodedig: Ystlumod yw'r rhywogaeth warchodedig fwyaf cyfarwydd. Mae holl ystlumod Prydain a'u clwydi wedi'u gwarchod gan y gyfraith. Mae'n anghyfreithlon lladd, anafu neu darfu ar ystlum hyd yn oed pan nad yw ar glwyd. Yng Nghymru, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) sy'n gweithredu'r gyfraith a dylid cysylltu â nhw am gyngor ar ystlumod a rhywogaethau gwarchodedig eraill. Mae'n werth cysylltu â'ch Grŵp Ystlumod lleol hefyd a all helpu i fonitro a'ch cynghori ar eich poblogaeth o ystlumod (cysylltwch â www.bats.org.uk am gymorth i ddod o hyd i'ch grŵp lleol). Rhywogaethau gwarchodedig cyffredin eraill mewn mynwentydd yw nadroedd defaid, pob math o nadroedd ac ymlusgiaid, gwahanol rywogaethau o gnofilod ac ati.

- Yr allwedd wrth ddatblygu'ch cynllun ar gyfer bywyd gwyllt fydd cael cyngor da. Gall gweithgarwch sy'n llawn bwriadau da, heb gyngor arbenigol fod yn fwy niweidiol na gwneud dim byd! Man cychwyn rhagorol yw cysylltu â'ch Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt leol. Mae yna 46 ohonynt ledled y DU, llawer ohonynt yn rhedeg Prosiectau Mynwentydd Byw (cysylltwch â www.wildlifetrusts.org i ddod o hyd i'ch grŵp lleol). Efallai y bydd ecolegydd neu swyddog bioamrywiaeth eich awdurdod lleol yn gallu helpu hefyd.

- Dylid ystyried dyfodol hirdymor y fynwent mewn unrhyw gynllun bywyd gwyllt gan y gallai annog bywyd gwyllt mewn ardal o'r fynwent y bydd angen ei defnyddio at ddibenion eraill yn y dyfodol o bosibl (beddau newydd, estyniad i'r eglwys ac ati) gymhlethu'r gallu i gyflawni'r dibenion newydd hynny.

## 7. Ymwelwyr

- Mae caniatáu pobl i ymweld â mynwentydd yn rhan bwysig o weinidogaeth yr eglwys. Er bod y nodiadau isod yn nodi rhai o'r materion cyfreithiol ynghylch atebolrwydd a'r ddyletswydd gofal sy'n ddyledus i ymwelwyr, ni ddylai hyn wneud i Gynghorau Plwyf Eglwysig deimlo na ddylent annog ymwelwyr. Mae ymwelwyr yn ddarpar aelodau o'r gynulleidfa neu gallant fod yn bobl sy'n barod i gefnogi'r eglwys mewn gwahanol ffyrdd.

- Mae gan y Cyngor Plwyf Eglwysig, a Chorff y Cynrychiolwyr, ddyletswydd gofal i bob person sy'n dod i'r fynwent (yn cynnwys tresmaswyr). Y ddyletswydd yw cymryd pob

gofal sy'n rhesymol ym mhob amgylchiadau i sicrhau nad yw'r ymwelydd yn cael anaf ar y safle.

- Mae angen ystyried plant yn ofalus gan y byddant yn gweld y fynwent yn lle cyffrous i chwarae ond efallai na fyddant yn deall arwyddion a rhybuddion eraill.

- Codwch arwyddion wrth y mynedfeydd i'r fynwent yn egluro'r peryglon a'r mesurau diogelwch sydd ar waith. Defnyddiwch symbolau fel y gall pawb eu deall.

- Dylai llwybrau fod yn gymharol wastad ac yn rhydd o unrhyw beth a allai achosi i rywun lithro neu faglu.

- Dylid gorchuddio beddau agored sy'n aros am gladdedigaeth gydag estyll priodol.

- Dylid ffensio ardaloedd peryglus dros dro e.e. lle mae gwaith yn cael ei wneud.

- Codwch arwyddion rhybudd (gyda symbolau) ger unrhyw beryglon penodol.

- Dylech gloi claddgelloedd a boelerdai ac ati.

- Cymerwch ofal arbennig i wirio'r ardaloedd y mae pobl yn ymweld â nhw fwyaf fel beddau enwog, seddi a meinciau neu gofebau. Mae mwy o bobl yn mynd i'r llefydd hyn ac mae'r tebygolrwydd o gael anaf yn fwy.

- Ystyriwch reoli ymwelwyr drwy sefydlu llwybrau penodol o amgylch y fynwent.

- Gall rheoli ymwelwyr â chŵn fod yn her arbennig. Yn gyffredinol, mae'n briodol mynnu bod cŵn yn cael eu cadw ar dennyn. Dylai'r polisi hwn ffurfio rhan o'r polisi rheoli ar gyfer y fynwent (gweler *Rheoli a Gweinyddu* uchod). Dylid codi arwyddion clir ger y mynedfeydd i'r fynwent i gadarnhau y dylai cŵn fod ar dennyn (drwy ddefnyddio symbol yn ddelfrydol). Gellir ystyried cyfleusterau ar gyfer gwaredu baw cŵn pan fo defnydd yn fwy dwys a dylech gysylltu â'ch Awdurdod Lleol i ofyn am ddarpariaeth.

## 8. Tarfu ar Weddillion Dynol

- Yn yr Eglwys yng Nghymru, mae angen trwydded gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder (Is-adran y Crwner) i awdurdodi tarfu ar *unrhyw* weddillion dynol neu eu symud, yn cynnwys gweddillion wedi'u hamlosgi, boed yn weddillion ysgerbydol llawn neu'n esgyrn unigol. Bydd angen caniatâd hawleb hefyd.

- Bydd angen cael caniatâd etifeddion cyfreithiol yr ymadawedig (aelodau teulu) yn y rhan fwyaf o achosion cyn y rhoddir trwydded a hawleb. Dylid gwneud ymdrechion rhesymol i nodi'r bobl dan sylw ac mae'n debygol y bydd angen rhoi hysbysebion yn y wasg leol.

- Mae gweithdrefnau statudol arbennig yn berthnasol pan fo gwaith adeiladu i'w wneud mewn mynwent, er enghraifft, creu estyniad i eglwys neu neuadd o dan Ddeddf Mynwentydd Nas Defnyddir. Dylid ymgynghori â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a gall yr Adran Gwasanaethau Eiddo gynghori ar y mater hwn.

- Cyn gwneud unrhyw waith mewn mynwent, dylid ymgynghori â'r cynghorydd archaeolegol ar gyfer Pwyllgor Ymgynghorol yr Esgobaeth a gwneud asesiad o'r tebygolrwydd bod gweddillion yn bresennol.

- Mae'n bosibl y bydd angen cynnal briff gwylio archaeolegol i gofnodi unrhyw ganfyddiadau. Weithiau, bydd y contractwr archaeolegol yn cael trwydded y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac mae'n synhwyrol cael trafodaethau cynnar â'r contractwr ynghylch y weithdrefn fonitro. Dylid cael amcanbris o'r gost debygol, gan y bydd yn rhaid i'r Cyngor Plwyf Eglwysig dalu hyn.

- Os yw'n debygol y bydd rhaid symud llawer o weddillion, bydd angen briff mwy helaeth a bydd angen i'r Cyngor Plwyf Eglwysig ystyried trefniadau ail-gladdu.

- Mewn achosion lle mae gweddillion yn cael eu darganfod yn annisgwyl, dylid rhoi'r gorau i unrhyw waith yn syth a rhoi gwybod i Ysgrifennydd Pwyllgor Ymgynghorol yr Esgobaeth. Bydd angen trwydded gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder cyn y gellir gwneud unrhyw waith pellach. Efallai y bydd yr Heddlu'n cael eu galw os yw lleoliad y gweddillion yn annisgwyl ac amheus.

## 9. Claddedigaeth Werdd

- Mae Claddedigaethau Gwyrdd neu Naturiol yn cyfeirio at ddull claddu sy'n 'ystyriol o'r amgylchedd'. Mae yna dair elfen i'r dull hwn: y lleoliad claddu, y math o amdo neu arch a'r math o wasanaeth.

- Mae yna ddau fath o safle claddu gwyrdd; gweirgloddiau a choetiroedd. Mae gweirgloddiau yn cynnwys blodau wedi'u plannu gan ddarparwr y safle neu weithiau bydd yn ardal o wair heb farciau. Mae'n ymddangos bod safleoedd claddu coetiroedd yn cael eu rheoli ar y cyd ag ymddiriedolaeth goetiroedd neu'r Comisiwn Coedwigaeth yn aml ac yn cynnwys coeden wedi'i phlannu i ddynodi'r bedd fel arfer. Nid yw lleoliadau claddu naturiol neu wyrdd yn cynnwys cofebau parhaol wedi'u gweithgynhyrchu.

- Mae cardfwrdd, cyrs, helyg, papur neu ddeunydd arall a ddaw o ffynhonnell gynaliadwy'n cael eu defnyddio fel amdo neu arch.

- Nid yw Cyfansoddiad yr Eglwys yng Nghymru yn nodi union fanylion claddedigaethau ac felly mae'n bosibl i Gyngor Plwyf Eglwysig benderfynu mabwysiadu dull claddu gwyrdd drwy neilltuo rhan o fynwent i fod yn safle claddu gwyrdd. Yn gyffredinol, bydd gweirglodd yn fwy priodol gan y gallai coed coffáu mewn safle coetir fod yn rhwymedigaeth bosibl yn y dyfodol.

- Os yw Cyngor Plwyf Eglwysig yn dymuno caffael tir ychwanegol yn benodol ar gyfer creu Safle Claddu Gwyrdd, bydd angen caniatâd gan Gorff y Cynrychiolwyr. Mae meini prawf tebyg yn berthnasol i gais o'r fath ag sydd ar gyfer claddfeydd traddodiadol fel y nodir yn y polisi cyfredol, yn enwedig yr angen i sicrhau cymorth priodol a pharhaol ar gyfer cynnal a chadw. Fodd bynnag, dylid gwerthfawrogi y gallai safle claddu gwyrdd osod cyfyngiadau annerbyniol ar deuluoedd sy'n dymuno claddu eu perthnasau yn y fynwent benodol honno. Mae safle claddu gwyrdd yn well fel dewis amgen mae'n debyg, yn hytrach na'i fod yn cymryd lle dull claddu traddodiadol.

- Mae'n rhaid penderfynu a oes angen ardal newydd o dir ar gyfer claddu gwyrdd ar ôl asesu costau a rhwymedigaethau a faint o gymorth ariannol sydd ar gyfer yr ardal yn y tymor hir. Pe bai Cyngor Plwyf Eglwysig yn penderfynu mabwysiadu dull claddu gwyrdd byddai angen cael penderfyniad Cyngor Plwyf Eglwysig yn egluro eu rheolau a'u dull o ymdrin â'r ardal gladdu wyrdd.

## 10. Claddfeydd o amgylch Eglwysi sydd wedi cau

O bryd i'w gilydd, mae Cyngor Plwyf Eglwysig yn dod i'r casgliad, ar y cyd â'r Esgob, na all barhau â'r rhwymedigaeth o ofalu am eglwys ac mae'n cael ei datgan fel eglwys ddiangen. Mae proses drylwyr yn cael ei dilyn cyn cyflawni hyn ac mae nodyn cyfarwyddyd ar y mater hwn ar gael gan Gorff y Cynrychiolwyr.

Pan mae eglwys yn cael ei datgan yn ddiangen bydd cyfrifoldeb am yr eglwys yn cael ei drosglwyddo i Gorff y Cynrychiolwyr er nad yw hyn yn berthnasol i'r gladdfa sy'n amgylchynu'r eglwys flaenorol. Mae'r Cyngor Plwyf Eglwysig yn dal i fod yn gyfrifol am reoli a chynnal y gladdfa, neu mae'r cyfrifoldeb yn cael ei drosglwyddo i Gyngor Plwyf Eglwysig y Plwyf, Bywoliaeth neu Ardal Weinidogaeth sydd newydd eu grwpio neu eu huno pan fo'r ad-drefnu'n digwydd.

Bydd Corff y Cynrychiolwyr yn ceisio dod o hyd i berchnogion newydd ar gyfer yr eglwys ddiangen (drwy werthu neu brydlesu) ac weithiau mae'n bosibl ffurfio cytundeb â'r perchennog newydd iddyn nhw gynnal y gladdfa trwy drwydded gan Gorff y Cynrychiolwyr neu, mewn amgylchiadau eithriadol, drwy drosglwyddo teitl.

Os nad oes neb wedi'u claddu yn y fynwent, bydd yr ardal gyfan yn cael ei gwerthu gyda'r eglwys fel arfer gan y bydd hyn yn cynyddu gwerth yr hen eglwys. Os oes claddfa o amgylch hen eglwys yn cynnwys ardal lle nad oes neb wedi'u claddu, yn aml bydd hon yn cael ei gwerthu er mwyn cynyddu gwerth yr hen eglwys.

## 11. Cynnwys eich Cymuned

Dywed y gyfraith bod rhaid i'r Eglwys yng Nghymru ganiatáu claddu unrhyw aelod o'r gymuned, nid aelodau'r gynulleidfa'n unig. Mae hyn yn golygu bod ein claddfeydd yn fynwentydd cyhoeddus; y rhwystredigaeth yw bod llawer ohonynt yn cael eu cynnal ar draul y gynulleidfa'n unig heb fawr o gymorth gan y gymuned ehangach. Mae'n werth treulio amser yn siarad â'ch cymuned ac yn esbonio sut mae'r fynwent yn cael ei rheoli a'i hariannu. Dyma rai syniadau posibl:

- Gwahoddwch eich Cyngor Cymuned i ymweld â'r fynwent ac esbonio sut rydych yn rheoli'r ardal. Esboniwch natur gyhoeddus y claddedigaethau y mae'n rhaid i'r eglwys eu caniatáu. Gofynnwch am syniadau ar sut i gefnogi'ch gwaith. Mae'n bwysig pwysleisio nad ydych yn derbyn unrhyw gymorth ariannol cyhoeddus i'ch helpu a bod y ffioedd a godir am gladdu'n cael eu rheoli a'u pennu gan Lywodraeth Cymru.

- Trafodwch y mater â'ch cynghorwyr sir/dosbarth lleol.

- Trefnwch deithiau tywys i'ch cymuned o amgylch y fynwent yn edrych ar gofebau arwyddocaol a beddau enwogion lleol. Bydd hyn yn helpu i ennyn diddordeb eich cymuned.

- Paratowch gynllun a rhestr o feddau a phwy sydd wedi'i gladdu ym mhle (gyda chymorth grŵp hanes lleol o bosibl). Bydd hyn yn helpu pobl i olrhain eu hachau.

- Trefnwch ddigwyddiad i'r gymuned e.e. clirio sbwriel, torri gwair ac ati.

- Sefydlwch Grŵp Cyfeillion y Fynwent; cysylltwch â'ch cymuned ac unrhyw berthnasau i bobl y gwyddoch eu bod wedi'u claddu yno. Gallai Grŵp Cyfeillion eich galluogi i dderbyn rhoddion rheolaidd i helpu gyda chostau cynnal a chadw. Gall Corff y Cynrychiolwyr roi cyngor ar sut i sefydlu Grŵp Cyfeillion.

- Yn amodol ar hawleb, codwch banel gwybodaeth am y fynwent (a'r eglwys) i esbonio ei hanes a nodweddion o ddiddordeb. Dylai'r panel gynnwys awgrymiadau ar sut y gall pobl helpu i ofalu am yr ardal.

Pan fo cymuned yn gefnogol iawn i'r fynwent efallai y bydd hi'n bosibl trosglwyddo cyfrifoldeb i Ymddiriedolaeth Gymuned a sefydlir yn y gymuned at y diben hwnnw. Gall hyn fod yn ateb priodol pan fo cymuned yn anesmwyth ynglŷn â chefnogi enwad penodol neu pan fo cyllid ond yn gallu cefnogi grwpiau cymunedol nid crefyddol.

# NODYN CYFARWYDDYD AR GOED MEWN MYNWENTYDD

Mae coed yn nodwedd bwysig o Fynwentydd gan ddarparu manteision tirweddol ac amgylcheddol. Gallant fod yn faich hefyd a dylid eu rheoli'n ofalus. Bwriad y nodyn hwn yw cynnig cyfarwyddyd ar reoli a gofalu am goed mewn Mynwentydd.

## Cyfansoddiad

Mae Rheoliadau Mynwentydd y Cyfansoddiad yn cynnwys y darpariaethau canlynol ynghylch coed:

- Ni ellir plannu unrhyw goed mewn Mynwent heb ganiatâd ysgrifenedig yr Archddiacon.

- Gyda chaniatâd y Periglor, gall y Cyngor Plwyf Eglwysig wneud cais i'r Archddiacon am ganiatâd i dorri coed mewn mynwent a heb amharu ar hawliau Corff y Cynrychiolwyr ac yn amodol ar unrhyw Orchymyn Cadw Coed neu fesurau rheoli Ardal Gadwraeth. Bydd gan yr Archddiacon y pŵer i roi caniatâd o'r fath. Bydd unrhyw elw o werthu pren o'r fath yn cael ei gredydu i gronfa briodol y plwyf.

## Rheoli Coed

Dylid archwilio coed yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn iach ac nad ydynt yn fygythiad sylweddol i bobl neu eiddo. Mae'n werth cael arolwg o gyflwr coed gan dyfwr coed cymwysedig a all gynghori ar ba mor aml y dylid eu harchwilio. Rhwng yr archwiliadau hyn dylai aelod o'r Cyngor Plwyf Eglwysig fod yn gyfrifol am wirio'r coed am unrhyw arwyddion amlwg o salwch neu ddifrod. Bydd arwyddion o'r fath yn cynnwys dail marw neu ddail sy'n marw, canghennau wedi torri, gwreiddiau amlwg, nodd yn diferu ac ati. Mae'n bwysig iawn gwirio yn dilyn tywydd garw fel stormydd, mellt a llifogydd.

Mae angen gofyn am ganiatâd yr Archddiacon i wneud unrhyw waith ar goed. Dylid cyflwyno manylion gwaith o'r fath yn ysgrifenedig, ymlaen llaw, i'r Archddiacon, yn cynnwys manylion y cynnig a phwy fydd yn gwneud y gwaith. Dim ond pobl gymwys addas sy'n meddu ar yswiriant indemniad cyhoeddus a phroffesiynol am £5 miliwn o leiaf ddylai wneud unrhyw waith ar goed. Dylid rhoi cyfarwyddiadau ar gyfer gwaith yn ysgrifenedig ar ffurf manyleb ysgrifenedig. Dylid paratoi asesiad risg cyn gwneud y gwaith, sy'n ystyried y peryglon sy'n deillio o'r gwaith, a mesurau diogelwch priodol a fydd yn cael eu gweithredu yn enwedig mewn perthynas â diogelu'r cyhoedd. Er ei bod hi'n demtasiwn gadael i 'un o'r plwyfolion gyda llif gadwyn' wneud gwaith ar goeden ni ddylid gwneud hyn. *Mae angen tystysgrif briodol i ddefnyddio llif gadwyn ac mae gwaith i goed yn beryglus yn ei hanfod.* Gall gwaith medrus a chywir i goeden ymestyn ei hoes a gwella diogelwch – gall trin coed ar sail gwybodaeth wael leihau oes y goeden a chynyddu risgiau.

Yn aml iawn mae mynwentydd yn gartref i goed hynafol, yn enwedig yw, a dylid cymryd gofal arbennig i reoli'r coed hyn gan ofyn am gyngor arbenigol bob amser.

## Caniatadau Eraill

Yn aml bydd gwaith ar goed yn gofyn am ganiatâd gan yr Awdurdod Lleol a bydd ei angen fel arfer ar gyfer trin, tocio neu gwympo coeden pan fo coeden wedi'i lleoli:

- Mewn mynwent adeilad rhestredig
- Mewn ardal gadwraeth
- Pan fo'r goeden yn destun Gorchymyn Cadw Coed

Mae'n werth cael cyngor Swyddog Coed y Cyngor lleol pan mae angen gwneud gwaith sylweddol ar goeden. Yn gyffredinol, pan nodir bod angen gwneud gwaith brys (lle mae yna risg uniongyrchol o anaf i bobl neu eiddo) gellir gwneud hyn heb ganiatâd, ond mae'n bwysig bod yn glir bod yna argyfwng dilys yn bodoli.

## Ffiniau

Mae coed ar ffiniau'n achosi problemau arbennig gan eu bod yn gallu effeithio ar bethau fel hawl cymdogion i olau a draenio ac ati. Dylid gofyn am gyngor wrth ystyried gwaith ar goed ar ffiniau.

Mae'n amlwg bod cadw coed mewn mynwentydd yn ddymunol ac er y gallant fod yn faich, gallant barhau i wella ein Heglwysi yn y dyfodol drwy reoli gofalus a phroffesiynol.

## Gwaith ar Goed a Rhywogaethau Gwarchodedig

Dylid gofyn am gyngor cadwraeth natur priodol ar ddefnydd posibl o goed gan Rywogaethau Gwarchodedig (ystlumod ac/neu adar) cyn dechrau'r gwaith. Dylai gwaith i gael gwared ar goed (a gwrychoedd, prysgwydd neu adeiladau) sy'n cynnal adar sy'n nythu gael ei wneud y tu allan i dymor bridio adar, sydd rhwng Mawrth ac Awst i'r rhan fwyaf o rywogaethau.

# ATODIAD A

## Canllaw Enghreifftiol i Reoliadau Mynwentydd yr Eglwys yng Nghymru ar gyfer Defnyddwyr Mynwentydd

### Cyflwyniad

Paratowyd y canllaw byr hwn i esbonio prif agweddau rheolau'r Eglwys yng Nghymru ar gyfer ei mynwentydd. Nid yw'n rhestr helaeth ond mae'n nodi'r pethau allweddol y gallech fod angen eu gwybod fel defnyddiwr Mynwent.

### Cofebau

Mae'n rhaid cael caniatâd yr offeiriad lleol (neu'r Deon Ardal os nad oes offeiriad) i godi cofeb. Mae yna ffurflen arbennig i'w chwblhau i wneud cais am gofeb y dylai eich saer maen cofebau wybod amdani.

Gall cofebau fod at uchder penodol (4 troedfedd neu 1219mm o uchder) ac o gynllun priodol. Dylai unrhyw garreg gynnwys arysgrif, motiff neu groes syml a phriodol. Mae rheolau gwahanol ar gyfer cerrig sy'n marcio plotiau llwch unigol os yw'r fynwent yn cynnwys ardal o'r fath.

Weithiau, mae eglwysi unigol yn mabwysiadu polisi arbennig ar gyfer cofebau i sicrhau safonau cyson a gall hyn olygu bod cofeb lai'n briodol. Dylech wirio ag offeiriad y plwyf a saer maen cofebau ymlaen llaw a oes yna unrhyw reoliadau lleol.

Rydych chi a'ch teulu'n parhau i fod yn gyfrifol am gynnal y gofeb a godwch. Mae'n werth sicrhau bod eich saer maen cofebau wedi cymhwyso'n briodol. Edrychwch am y llythrennau NAMM, BRAMM neu RQMF ar eu llenyddiaeth; mae'r rhain yn farciau safonau da.

Bydd yr eglwys leol yn cynnal archwiliadau diogelwch o'r fynwent a'i chofebau. Os byddant yn gweld problem gyda'ch cofeb, byddant yn ceisio cysylltu â chi i drafod beth ddylid ei wneud.

### Teyrngedau

Dylid cyfyngu teyrngedau i flodau ffres fel arfer. Mae'r rheolau'n annog pobl i beidio â gosod torchau artiffisial neu addurniadau eraill. Er bod yr Eglwys yn deall dymuniad rhai ffrindiau a pherthnasau i addurno beddau â gwrthrychau cysylltiedig â'r ymadawedig, rydym yn ceisio cadw ein mynwentydd yn llefydd syml a thaclus. Helpwch ni i wneud hynny.

### Rheoli Mynwent

Aelodau gwirfoddol o'r gynulleidfa sy'n rheoli'r Fynwent. Y gynulleidfa nid y Llywodraeth sy'n talu holl gostau cynnal a chadw'r ardal. Mae'r ffioedd a dalwch mewn cysylltiad ag unrhyw gladdu wedi'u pennu gan Lywodraeth Cymru ac yn cael eu cyfeirio i gefnogi'r gwaith o gynnal a chadw'r fynwent. Fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o achosion mae'r incwm hwn yn annigonol i dalu costau cynnal a chadw blynyddol. Siaradwch ag offeiriad y plwyf i weld sut mae'r fynwent yn cael ei rheoli a sut y gallech chi helpu i ofalu amdani.

# ATODIAD B

## Polisi Rheoli Mynwentydd Enghreifftiol

Enw'r Plwyf/Bywoliaeth/Ardal Weinidogaeth:

Enw'r Fynwent/Claddfa:

1. Rheoli (pwy sy'n gwneud beth)

- *Rhowch fanylion y bobl sy'n rhan o'r gwaith o reoli'r Fynwent. Pwy fydd yn arwain ar y Cyngor Plwyf Eglwysig i fonitro'r fynwent; pwy fydd yn trefnu i dorri'r gwair, gwirio cerrig beddau, gwirio coed a gwaith arnynt, gwneud asesiadau iechyd a diogelwch ac ati.*
- *Rhowch fanylion unrhyw gontractwyr ac ymgynghorwyr fydd yn cael eu defnyddio.*
- *Rhowch fanylion unrhyw awdurdod dirprwyedig a roddir gan y Cyngor Plwyf Eglwysig i unrhyw unigolion.*

2. Y Drefn Gynnal a Chadw

- *Rhowch fanylion y tasgau rheolaidd a fydd yn cael eu cyflawni a syniad o pryd. Dylai hyn gynnwys torri gwair, tocio gwrychoedd, archwiliadau diogelwch, clirio dail a sbwriel, clirio rhew ac eira/gritio ac ati. Rhowch fanylion y trefniadau ar gyfer trin gwastraff (yn enwedig gweddillion blodau coffa).*

3. Polisi Torri Gwair

- *Rhowch fanylion y trefniadau torri gwair yn cynnwys yr ardaloedd i'w torri a pha mor aml. Os oes ardaloedd i'w gadael gyda glaswellt hir, esboniwch pam ac unrhyw fesurau a gymerir i atal anaf (ffensio, arwyddion ac ati). Nodwch y llwybrau gwair a fydd yn cael eu torri ar gynllun.*

4. Polisïau Cadwraeth Bywyd Gwyllt

- *Os oes rhan o'r fynwent yn cael ei rheoli ar gyfer bywyd gwyllt, rhowch fanylion y cynllun rheoli yma. Dylai hyn gynnwys manylion y buddiannau bywyd gwyllt sy'n cael eu hyrwyddo a'r gweithgareddau allweddol i gyflawni hyn, yn cynnwys trefniadau torri gwair ac ati.*

5. Polisïau ar Gofebau a Theyrngedau

- *Dylai hyn nodi unrhyw egwyddorion arweiniol a fabwysiedir gan y Cyngor Plwyf Eglwysig.*

6. Trefniadau ar gyfer Archwilio ac Arolygu

- *Nodwch sut y bydd archwiliadau'n cael eu cynnal a phwy fydd yn gwneud y gwaith hwn. Mae'n rhaid nodi amseriad a pha mor rheolaidd y cynhelir pob archwiliad. Dylai'r adran hon gyfeirio at ddiogelwch cerrig beddau, diogelwch coed, mynediad diogel, gwiriadau ffiniau ac ati.*

7. Cysylltiadau allweddol

- *Pwy yw pwy a sut i gysylltu â nhw.*

8. Adrodd am Namau

- *Amlinellwch y trefniadau i aelodau'r Cyngor Plwyf Eglwysig, plwyfolion ac ymwelwyr adrodd am unrhyw namau neu anghenion trwsio a sut y bydd y rhain yn cael eu trin e.e. lleoliad llyfr namau, cyswllt ffôn a sut y bydd hyn yn cael ei hyrwyddo.*

# ATODIAD C

## EITEMAU RHESTR A SY'N YMWNEUD Â'R FYNWENT A CHOED

Nid oes angen caniatâd ar gyfer yr eitemau canlynol er fe argymhellir i blwyfi eu cofnodi yn y System Hawlebau Ar-lein i greu cofnod parhaol o'r hyn sydd wedi'i wneud.

| Eitem | Amodau a Bennwyd |
|---|---|
| **A7. Mynwent** | |
| (1) Cyflwyno a chynnal cyfarpar ar gyfer cynnal a chadw'r eglwys a'r fynwent | |
| (2) Trwsio llwybrau ac ardaloedd eraill ag arwyneb caled, yn cynnwys ailarwynebu yn yr un deunyddiau a lliw | Peidio â chynnwys ailarwynebu ac eithrio ar gyfer gwaith trwsio lleol |
| (3) Gwaith cynnal a chadw a thrwsio ffensys a gatiau a gosod rhai tebyg am debyg (ond nid pyrth mynwent, waliau neu reiliau hanesyddol) | Nid yw'r gwaith yn cynnwys unrhyw darfu newydd o dan ddaear |
| (4) Trwsio hysbysfwrdd ac ailbeintio hysbysfwrdd | |
| (5) Pori yn y fynwent | Cyn belled bod trwydded briodol ar gyfer pori wedi'i rhoi gan Gorff y Cynrychiolwyr. |
| | |
| **A8. Coed** | |
| (1) Cwympo, brigdorri neu docio coeden, nad yw diamedr unrhyw goesyn yn fwy na 75 milimetr (wedi'i fesur dros risgl ar uchder o 1.5 metr uwchben lefel y ddaear) | Bod unrhyw waith o'r fath wedi'i gymeradwyo ymlaen llaw ac yn ysgrifenedig gan yr Archddiacon.<br><br>Nad yw'r gwaith yn ymwneud ag unrhyw goeden sydd â gorchymyn cadw coed mewn grym ar ei chyfer neu sydd mewn ardal gadwraeth.<br><br>Dilynir y canllawiau a roddwyd gan Gorff y Cynrychiolwyr ar reoli coed. |
| (2) Brigdorri neu docio unrhyw goeden:<br><br>(a) sy'n marw neu wedi marw;<br>(b) sy'n beryglus | Bod unrhyw waith o'r fath wedi'i gymeradwyo ymlaen llaw ac yn ysgrifenedig gan yr Archddiacon.<br><br>Dilynir y canllawiau a roddwyd gan Gorff y Cynrychiolwyr ar reoli coed. |

| | |
|---|---|
| (3) Cael gwared ar ganghennau marw o goeden fyw | Bod unrhyw waith o'r fath wedi'i gymeradwyo ymlaen llaw ac yn ysgrifenedig gan yr Archddiacon.<br><br>Dilynir y canllawiau a roddwyd gan Gorff y Cynrychiolwyr ar reoli coed. |
| (4) Plannu coed | Bod unrhyw waith o'r fath wedi'i gymeradwyo ymlaen llaw ac yn ysgrifenedig gan yr Archddiacon.<br><br>Dilynir y canllawiau a roddwyd gan Gorff y Cynrychiolwyr ar reoli coed. |
| (5) Cwympo coed:<br><br>(a) sy'n marw neu sydd wedi marw;<br>(b) sy'n beryglus | Bod unrhyw waith o'r fath wedi'i gymeradwyo ymlaen llaw ac yn ysgrifenedig gan yr Archddiacon.<br><br>Yn achos unrhyw goeden sydd â gorchymyn cadw coed mewn grym ar ei chyfer neu sydd mewn ardal gadwraeth, cydymffurfir ag adran 206 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref (sy'n darparu ar gyfer plannu coed yn lle rhai eraill).<br><br>Dilynir y canllawiau a roddwyd gan Gorff y Cynrychiolwyr ar reoli coed. |
| (6) Pob gwaith arall ar goed (boed wedi'i nodi uchod ai peidio) ac eithrio cwympo | Bod unrhyw waith o'r fath wedi'i gymeradwyo ymlaen llaw ac yn ysgrifenedig gan yr Archddiacon.<br><br>Dilynir y canllawiau a roddwyd gan Gorff y Cynrychiolwyr ar reoli coed.<br><br>Os yn berthnasol, y gyfraith sy'n ymwneud â gwarchod coed mewn perthynas â'r gorchymyn cadw coed neu sydd mewn ardal gadwraeth. |

# ATODIAD D

## EITEMAU RHESTR B SY'N YMWNEUD Â'R FYNWENT

Mae angen caniatâd Cofrestrydd yr Esgobaeth ar gyfer yr eitemau canlynol ac mae'n rhaid gwneud cais drwy'r System Hawlebau Ar-lein.

| **Eitem** | **Amodau a Bennwyd** |
|---|---|
| **B5. Mynwent** | |
| (1) Cyflwyno meinciau mewn mynwent | Peidio â chynnwys arysgrif ar fainc na fyddai'n cael ei ganiatáu ar heneb yn y fynwent o dan reoliadau perthnasol y fynwent neu a gymeradwyir gan y canghellor. |
| (2) Newid tanciau nwy neu olew | Mae dimensiynau'r tanc newydd yn debyg ac mae yn yr un lleoliad i raddau helaeth.<br><br>Nid yw'n cynnwys gwaith cloddio.<br><br>Mae'r awdurdod cynllunio lleol wedi'i hysbysu am y cynnig. |
| (3) Gwaith rheolaidd i gynnal a chadw, trwsio neu ailadeiladu waliau | Nid yw'r gwaith yn ymwneud ag unrhyw wal sydd wedi'i rhestru ar wahân i'r eglwys neu sydd wedi'i chynnwys yn y Rhestr a gedwir at ddibenion Deddf Henebion ac Ardaloedd Archaeolegol 1979.<br><br>Mae'r gwaith wedi'i nodi fel eitemau cynnal a chadw rheolaidd yn yr adroddiad Arolwg Pum Mlynedd diweddaraf a gomisiynwyd drwy'r Esgobaeth mewn perthynas â'r eglwys.<br><br>Mae manylion unrhyw ddeunyddiau i'w defnyddio wedi'u cyflwyno i'r Cofrestrydd pan ymgynghorir â'r Cofrestrydd i gyflawni'r mater.<br><br>Nid yw'r gwaith yn cynnwys unrhyw darfu newydd o dan lefel y ddaear.<br><br>Hysbysir yswirwyr y cyngor plwyf eglwysig os oes sgaffaldiau allanol i'w codi. |
| (4) Gwaith cynnal a chadw neu drwsio rheolaidd ar byrth y fynwent | Nid yw porth y fynwent wedi'i rhestru ar wahân fel adeilad o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig o dan Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990. |
| (5) Ailarwynebu llwybrau yn yr un deunyddiau a lliw | |

# ADNODDAU

Mae'r sefydliadau, cyhoeddiadau a gwefannau canlynol yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol am y pynciau a drafodir yn gynharach yn y ddogfen hon.

## Corff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru

Cysylltwch â'r adran Gwasanaethau Eiddo am wybodaeth a chyngor ar reoli a gweinyddu mynwentydd yn:

Adran Gwasanaethau Eiddo
2 Sgwâr Callaghan
Caerdydd
CF10 5BT

Ffôn: 029 2034 8200 ac e-bost property@churchinwales.org.uk.

## Cofrestryddion Esgobaethau ac Ysgrifenyddion Pwyllgorau Ymgynghorol yr Esgobaethau

Bydd Cofrestryddion ac Ysgrifenyddion Pwyllgorau Ymgynghorol yr Esgobaethau'n gallu cynghori ar weithdrefnau hawlebau ac agweddau cyfreithiol claddedigaethau a tharfu ar feddau. Mae manylion cysylltiadau esgobaethau ar brif wefan yr Eglwys yng Nghymru yn:

https://www.churchinwales.org.uk/cy/

## The Ecclesiastical Insurance Group (EIG)

Mae EIG yn cynnig cyfarwyddyd ar reoli mynwentydd a gellir cysylltu â nhw yn:

Beaufort House
Brunswick Road
Gloucester
GL1 1JZ

Ffôn: 0345 777 3322

Mae ganddynt ganllawiau defnyddiol yn eu cyhoeddiad, *Guidance Notes: Church Health & Safety* hefyd. Lawrlwythwch y canllaw yn adran Dogfennau eu prif wefan yn: www.ecclesiastical.com.

## Eglwys Loegr

Mae gwefan ChurchCare Eglwys Loegr yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol am fynwentydd yn cynnwys claddedigaethau, cofebau a bywyd gwyllt. Gellir ei gweld yn adran Adnoddau eu prif wefan yn: www.churchofengland.org.

Cyhoeddiad defnyddiol a gynhyrchir gan Church House Publications Eglwys Loegr (gyda ffocws ar Eglwys Loegr yn bennaf ond yn dal i fod yn berthnasol) yw *The Churchyards Handbook by Thomas Cocke*. ISBN 9780715143018

## Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE)

Mae'r HSE yn cynhyrchu casgliad eang o ganllawiau ar bob agwedd ar iechyd a diogelwch megis gweithio ar uchder, creu asesiad risg, lleihau peryglon (ee llithro a baglu), ac ati, ac mae'n werth eu hadolygu wrth wneud gwaith mewn mynwent eglwys neu gladdfa. Eu gwefan yw: www.hse.gov.uk.

## Claddedigaethau Gwyrdd a Naturiol

Mae rhagor o wybodaeth am gladdedigaethau gwyrdd a naturiol ar gael ar y gwefannau canlynol:

**The Natural Death Centre**: Natural Burial Grounds

www.naturaldeath.org.uk

**Y Weinyddiaeth Gyfiawnder:** Natural burial ground: guidance for operators and Burial grounds: guidance for managers

www.gov.uk

**The Natural Death Handbook (Rider Books) 4ydd Argraffiad**

ISBN 978-1844132263

## Bywyd Gwyllt a Chadwraeth Natur

Gellir cael rhagor o gyngor ar fywyd gwyllt a chadwraeth natur gan y sefydliadau canlynol:

**Caring for God's Acre (CFGA)**

Elusen annibynnol sy'n hyrwyddo cadwraeth mynwentydd a mannau claddu. Mae gan y wefan gasgliad helaeth o ddeunyddiau y gellir eu lawrlwytho:

www.caringforgodsacre.org.uk

**Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)**

Mae CNC yn cynnig cyngor ac arweiniad ar bob math o bynciau amgylcheddol:

www.cyfoethnaturiol.cymru

**The Bat Conservation Trust**

Mae gan yr Ymddiriedolaeth bob math o wybodaeth am ystlumod gan gynnwys gwybodaeth sy'n ymdrin yn benodol ag eglwysi.

www.bats.org.uk

**The British Lichen Society**

Mae gan y Gymdeithas nifer o dudalennau a lawrlwythiadau defnyddiol ar eu gwefan sy'n ymwneud yn benodol â chennau mewn mynwentydd:

www.britishlichensociety.org.uk

Alex Glanville
Pennaeth y Gwasanaethau Eiddo
Yr Eglwys yng Nghymru

Diweddarwyd 27 Awst 2018
(TA)